Welsh Parliament
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

# Deintyddiaeth

## Crynodeb Ymgysylltu: Adroddiad Astudiaeth Achos

### Cefndir

1. Yn dilyn adroddiad Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Bumed Senedd ym mis Mai 2019, sef Dechrau Ffres: Ymchwiliad i ddeintyddiaeth yng Nghymru, mae Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Chweched Senedd yn ystyried a yw Llywodraeth Cymru yn gwneud digon i bontio'r bwlch o ran anghydraddoldebau iechyd y geg ac ailadeiladu deintyddiaeth yng Nghymru yn dilyn y pandemig COVID-19 ac yng nghyd-destun costau byw cynyddol.

2. Ym mis Gorffennaf 2022 lansiodd y pwyllgor yr ymchwiliad newydd hwn i ddeintyddiaeth.

3. I ategu'r ymchwiliad hwn, gofynnodd y Pwyllgor i'r Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion gyfweld â nifer fach o gyfranogwyr ledled Cymru i gofnodi eu profiadau byw o geisio mynediad at wasanaethau deintyddol.

4. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion.

### Cyfranogwyr

5. Rhwng 31 Awst a 16 Medi 2022, hwylusodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion bum cyfweliad gyda chyfranogwyr perthnasol o bob rhan o Gymru. Fe ddigwyddodd y pum cyfweliad yn rhithiol, gyda phedwar yn digwydd yn Saesneg ac un yn y Gymraeg.

6. Roedd y cyfranogwyr a gafodd eu cyfweld wedi eu lleoli yn y byrddau iechyd a ganlyn:

   Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
   Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
   Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
   Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

7. Amcan yr ymgysylltu oedd casglu barn a phrofiadau byw pobl yng Nghymru a gafodd eu heffeithio gan faterion yn gysylltiedig â deintyddiaeth.

## Fformat

8. Roedd fformat y gwaith ymgysylltu yn debyg i raddau helaeth o un sesiwn i'r llall, ond cafodd ei amrywio ychydig i ddiwallu anghenion cyfranogwyr.

9. Gofynnwyd y cwestiynau a ganlyn i'r cyfranogwyr er mwyn helpu i ysgogi'r drafodaeth.

10. Beth yw eich profiad o sicrhau apwyntiadau a/neu driniaeth ddeintyddol?

11. A oes deintyddfeydd yn eich ardal chi ac a oes gennych chi fynediad at ddeintyddiaeth y GIG ynteu a ydych chi'n gorfod talu'n breifat?

12. Beth yw hyd yr amser rydych chi wedi gorfod aros am wiriadau?

13. (Os yw'n berthnasol) Beth yw hyd yr amser rydych chi wedi gorfod aros am driniaeth a/neu apwyntiadau brys, a'r effaith mae hyn wedi ei chael arnoch chi?

14. Oes gennych chi bryderon am driniaeth yn y dyfodol, yn enwedig yng nghyd-destun yr argyfwng costau byw presennol?

15. Dyma ganfyddiadau'r cyfweliadau, ac mae nodiadau unigol ar gael ar gais.

## Astudiaethau achos

### Cyfranogwr A

Oedran: 66

Bwrdd Iechyd: Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe

16. Mae sawl mater iechyd yn effeithio ar gyfranogwr A (gan gynnwys dementia, diabetes ac osteoarthritis), ac mae'n cyrchu deintyddfa GIG ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe. Nid yw cyfranogwr A yn gallu gweithio oherwydd materion iechyd, ac ar hyn o bryd mae'n derbyn budd-daliadau lles. Mae'n cael tua £300 y mis.

17. Esboniodd cyfranogwr A ei fod wedi datblygu coden ym mhen uchaf y geg yr oedd angen llawdriniaeth i'w dynnu. Yn dilyn llawdriniaeth, fe wnaeth yr

ysbyty gysylltu â'i ddeintyddfa a gyllidir gan y GIG i drefnu apwyntiad deintyddol.

**18.** Yn y cyfamser, gofynnodd rhieni'r cyfwelai iddo a hoffai fynd ar wyliau gyda nhw. Yn anffodus, roedd hyn yn gwrthdaro â'i apwyntiad, felly aildrefnodd yr apwyntiad gyda'i ddeintydd ond ni chafodd apwyntiad arall. Dywedodd iddo gael ei adael heb ddannedd am beth amser, a chyflwynodd ei weithiwr cymorth gŵyn i'w ddeintyddfa a'r Ombwdsmon Iechyd, gan bwysleisio bod angen triniaeth ar frys.

> *Cefais fy anwybyddu a'm taro oddi ar y rhestr yn llwyr... Yn y bôn, cefais fy ngadael heb ddannedd am fis neu ddau. Nid yw'n dderbyniol ac achosodd lawer o straen i mi.*

**19.** Esboniodd cyfranogwr A y bu heb ddeintydd am tua 3 – 4 mis. Esboniodd ei fod wedi cael apwyntiad ers hynny i gynnal argraff ar gyfer dannedd gosod, ond mae'r rhain wedi bod yn broblematig ac felly mae'n aros am apwyntiad pellach.

> *Llwyddais i gael gafael ar ddeintydd eto yn y pen draw - ond nid oedd hi'n broses hawdd. Mae rhywun yn teimlo fel nad ydynt eisiau eich helpu chi a'u bod nhw'n eich gweld chi fel problem*

**20.** Ers hynny, mae cyfranogwr A wedi cael gwybod gan ei ddeintydd, pe bai'r ailosod yn methu, mai'r unig ddewis arall fyddai cael llawdriniaeth i fewnosod mewnblaniadau deintyddol. Mae'n credu y byddai'n rhaid iddo dalu am y mewnblaniadau hyn, sy'n costio £1,000 dant, ond nid yw'n gallu fforddio hynny. Nid yw wedi cael cynnig dewisiadau amgen ar hyn o bryd, a gyda'i incwm presennol, nid yw'n gwybod sut bydd yn gallu trefnu taliad.

> *Hyd yn oed heb ystyried popeth arall sy'n digwydd, ni allaf fforddio talu cymaint â hynny. Pwy allai, o ddifri? Pan rydych chi'n ychwanegu costau byw, biliau ynni ac ati, nid yw'n bosibl o gwbl*

**21.** Mae apwyntiad nesaf cyfranogwr A yn ddiweddarach yn y flwyddyn, ac mae'n teimlo fod hynny'n amser hir i aros ers ei apwyntiad cyntaf, gan ei fod yn gyfyngedig yn yr hyn y gall ei fwyta, ac mewn poen wrth lyncu. Disgrifiodd fod hynny'n teimlo fel ei fod bron â mygu am nad yw wedi gallu cnoi yn iawn ers rhai misoedd. Ers hynny mae wedi colli pwysau ac mae'r broses wedi cael effaith negyddol ar ei iechyd meddwl.

> *'Rydych chi'n dechrau teimlo beth yw'r pwynt bod yn fyw? Rydw i wedi rhoi 25 mlynedd i'r wlad yma. Mae angen i'r GIG wella ar frys*

**22.** Esboniodd nad yw wedi sylwi ar lawer o wahaniaeth o ran amseroedd aros nac ansawdd y driniaeth cyn ac ar ôl y pandemig o safbwynt personol, ond mae o'r farn y dylai'r GIG *'helpu pobl yn well.'* Disgrifiodd staff y GIG fel pobl ffantastig yn ystod y pandemig, ond mae o'r farn bod effaith y pandemig bellach yn cael ei ddefnyddio fel esgus am amseroedd aros hir.

> *'Rwy'n meddwl ei bod hi'n glir bod y GIG angen mwy o staff, ac mae angen i ni eu talu'n iawn a rhoi'r adnoddau iawn iddynt allu cefnogi pobl. Mae'r staff yn wych ond mae angen mwy o gymorth arnynt.*

## Cyfranogwr B

**Oedran**: 35

**Bwrdd Iechyd:** Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

**23.** Mae gan gyfranogwr B ddau blentyn (4 a 3 oed) ac mae'n byw yng ngogledd Cymru. Symudodd y teulu yn ôl i'r ardal yn 2020 o Lundain, ac roeddent yn byw mewn llety ar rent am flwyddyn cyn symud i gartref parhaol naw mis yn ôl.

**24.** Ers symud yn ôl i ogledd Cymru (yn ystod Covid), nid yw cyfranogwr B wedi gallu dod o hyd i ddeintydd. Cafodd wybod bod pob apwyntiad ar stop ac nad oedd unman yn derbyn cleifion newydd yn yr ardal leol. Nid yw wedi gweld deintydd ers sawl blwyddyn (ers pan oedd yn byw yn Llundain cyn Covid) ac nid yw'r plant wedi bod at ddeintydd erioed.

> *'Nid yw'r plant wedi gweld deintydd erioed. Rwy'n gwybod bod eu dannedd yn iawn mae'n debyg, ac mae'n siŵr y byddant yn dweud wrthym am ddal ati i frwsio, ond rwy'n poeni am fy nannedd fy hun. Mae gennyf ddannedd sy'n brifo ac mae'n debyg bod angen i rywun gael golwg arnynt.'*

**25.** Roedd y cyfranogwr hyd yn oed yn byw drws nesaf i nyrs ddeintyddiaeth am beth amser ac yn gyfeillgar â hi, ac nid oedd yn gallu cael apwyntiad na chofrestru gyda'r practis hwnnw chwaith.

> *'Doeddwn i ddim hyd yn oed yn gallu gofyn am ffafr gan gymydog oedd yn gweithio mewn deintyddfa.'*

**26.** Ar ôl iddynt symud i'w cyfeiriad parhaol naw mis yn ôl, buont yn chwilio eto am bractis deintyddiaeth leol ond ar hyn o bryd nid ydynt wedi gallu dod o hyd i un sy'n cymryd cleifion dan y GIG. Aethant hefyd i'w meddygfa am arweiniad ond nid oedd modd cael cymorth yno chwaith.

> *'Mae rhestr hir o bractisau ar wefan y GIG, ac rydw i wedi ffonio pob un. Nid yw'r un un ohonynt yn cymryd cleifion ar y GIG ar hyn o bryd ac nid yw rhai ohonynt yn cymryd cleifion preifat newydd, hyd yn oed.'*

**27.** Mae'r cyfranogwr yn poeni y byddai'n rhaid mynd i adran achosion brys yn yr ysbyty pe bai un o'r teulu angen triniaeth frys gan nad ydynt wedi eu cofrestru yn unman. Roedd yn poeni hefyd am roi straen ar y gwasanaeth hwn yn ddiangen ac am y posibilrwydd o fod angen mynd â phlant ifanc i'r amgylchedd hwnnw.

> *'Petai unrhyw beth yn digwydd, rydw i'n meddwl y buasai'n rhaid i ni fynd i'r adran achosion brys, sef y peth olaf mae'r staff yno eisiau ei glywed mae'n debyg. Ond os nad ydw i wedi cofrestru yn unman, wn i ddim beth arall fuaswn i'n ei wneud.'*

**28.** Mae'r cyfranogwr yn poeni nad yw wedi gweld deintydd am fwy na dwy flynedd ac y gallai fod angen triniaeth. Mae'n pryderu hefyd nad yw'r plant erioed wedi gweld deintydd. Nid yw ei bryderon pellach yn ymwneud â chost gofal deintyddol, gan eu bod yn debygol o gofrestru gyda deintydd preifat gan eu bod wedi disbyddu holl ddewisiadau'r GIG.

**29.** Fodd bynnag, roedd Cyfranogwr B yn poeni am gapasiti'r sector a sut mae modd denu mwy o ddeintyddion i weithio yn yr ardal i wella'r sefyllfa.

> *'Nid cwestiwn ariannol yw hwn, ond un yn ymwneud â chapasiti. Beth yw'r dynfa i ddeintyddion ddod i weithio yma? Sut gallant fynd i'r afael â'r broblem os nad yw'r deintyddion yma?'*

## Cyfranogwr C

Oedran: 60

Bwrdd Iechyd: Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

**30.** Mae cyfranogwr C yn byw ym Mhowys ac mae ganddo ddau o blant yn yr ysgol uwchradd. Mae wedi byw yn yr ardal ers chwe blynedd ac yn nodi, hyd yn oed cyn Covid, ei fod wedi cael anawsterau mawr o ran cael mynediad at ddeintyddion iddo'i hunan, ei bartner a'u dau o blant. Roedd gan gyfranogwr C sawl pryder am ei anallu i gael mynediad at wasanaethau deintyddiaeth. Collwyd archwiliadau allweddol ar gyfer y plant gan fod deintydd y GIG yn y practis wedi gadael. Roedd angen am driniaeth ddeintyddol frys wedi golygu eu bod nhw wedi gorfod mynd i'r adran achosion brys, gan roi straen ychwanegol ar y GIG.

> *Felly, tan yn ddiweddar, nid oedd y merched wedi gweld y deintydd ers pedair i bum mlynedd. Roedd eu hapwyntiadau'n cael eu canslo gan fod deintydd y GIG yn y practis wedi gadael. Mae'n ymddangos bod staff yn gadael yn rhywbeth cyffredin'*
>
> *Cafodd fy merch ieuengaf ddamwain. Syrthiodd ar wal frics a thorri ei dant. Fe lwyddon ni i fynd drwy 111 a chafodd driniaeth ddeintyddol frys. Disgynnodd y darn o'i le felly roedd yn rhaid i ni fynd drwy'r adran achosion brys unwaith eto gan nad oedd unman arall ar gael i ni... Roeddem yn ffonio i ofyn a oeddent yn cynnal gwiriadau ar hyd y cyfnod COVID, a dywedwyd wrthym mai dim ond argyfyngau roeddent yn eu trin.*

**31.** Yn ogystal â sôn bod ei blant wedi cael anawsterau wrth geisio cael triniaeth berthnasol, soniodd Cyfranogwr C hefyd am faterion oedd yn wynebu ei bartner, a oedd, ar ôl cael trafferth gyda'i dannedd, wedi cael apwyntiad brys ym mis Mai 2021. Ar ôl cael ei chyfeirio yn ôl at ei deintyddfa i dynnu'r dant, mae'n dal i aros am y camau nesaf.

> *Rydym wedi holi deintyddfa yr wythnos ddiwethaf, ac fe ddywedont nad ydynt wedi cael yr atgyfeiriad, ond y gallai hynny fod wedi digwydd oherwydd ei fod wedi mynd at y deintydd sydd i ffwrdd yn sâl ac o bosibl fod y neges ymysg ei waith papur, felly mae'r sefyllfa fel tagfa.*
>
> *Does dim gwaith meddwl cydlynol na dim byd, wyddoch chi, ac nid ydym yn gallu gwneud unrhyw beth. Does dim byd yn digwydd. Mae hi*

*ar feddyginiaeth wrthfiotig yn rheolaidd ac mae'n effeithio ar ei hiechyd meddwl.*

**32.** Ar ôl sawl mis o aros a bod ar feddyginiaeth ar gyfer y boen, mae Cyfranogwr C wedi gorfod ystyried mynd yn breifat ar adeg pan fo costau byw a chostau ychwanegol, gan gynnwys ffioedd prifysgol plant, yn golygu nad yw'n benderfyniad a wneir ar chwarae bach.

*A bod yn deg, rydym wedi ystyried mynd yn breifat. Rwy'n gwybod os na fydd unrhyw beth wedi digwydd mewn chwe mis y byddwn ni'n derbyn y bydd yn rhaid mynd yn breifat. Ni fydd gennym ni ddewis arall, wyddoch chi? Ond mae'r ffaith na allwch chi gael archwiliadau drwy'r GIG yn creu economi ffug, yn tydi?*

*Mae'n economi ffug oherwydd gallant roi cyngor i chi ac arbed arian drwy atal y problemau cyn iddynt ddatblygu. Mae'n debyg i sefyllfa pan nad yw'r car yn gweithio. Os ydych chi'n ei wasanaethu'n rheolaidd yna mae'n iawn ac nid ydych chi'n gorfod wynebu'r costau mawr yn ddiweddarach.*

**33.** Roedd cyfranogwr C yn rhwystredig ynglŷn â sut roedd cael mynediad at wasanaethau allweddol yn teimlo bron yn amhosib mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru, ac roedd yn teimlo bod angen gwneud mwy i fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hwn wrth gael mynediad at wasanaethau deintyddol.

*Mae hi'n dipyn o loteri cod post erbyn hyn. Os ydych chi'n byw mewn ardal wledig, pam na ddylech chi gael yr un gwasanaethau a'r hyn mae pobl yn ei gael yn y dinasoedd, wyddoch chi. I ryw raddau rydyn ni i gyd wedi talu'r un lefel o drethiant.*

**34.** Er ei fod yn gwerthfawrogi bod byw mewn ardaloedd gwledig yn golygu ei bod hi'n anochel y byddai angen teithio i gael mynediad at rai gwasanaethau, roedd yn teimlo bod gallu cael mynediad at wasanaethau deintydd yn angen sylfaenol nad oedd yn cael ei ddiwallu.

*Wrth gwrs, rydyn ni'n byw yng nghanolbarth Cymru heb ysbyty mawr yn agos, felly rydyn ni'n mynd i fyny i Henffordd neu i lawr i Gaerdydd neu Ysbyty Amwythig yn rheolaidd. Rydych chi'n deall y bydd hi'n anoddach oherwydd eich bod chi'n byw ychydig allan o'r ffordd, ond*

*mae deintyddiaeth yn un o'r pethau sylfaenol hynny, siawns? Gadewch i ni fod yn onest.*

**35.** Er bod Cyfranogwr C yn rhwystredig am y diffyg gwasanaethau oedd ar gael, roedd yn awyddus i dynnu sylw at y ffaith bod y materion yn ymwneud â chael mynediad at wasanaethau, ac nid y driniaeth a gawsant unwaith y sicrhawyd apwyntiad.

> *Yr unig beth y byddwn i'n ei ddweud yw bod y driniaeth yn ardderchog pan fyddwch chi'n cael gweld y deintydd.*
>
> *Does dim problem gyda'r driniaeth ei hunan na'r gwasanaeth. Darparu'r gwasanaeth a chael mynediad at y gwasanaeth yw'r broblem, ac rwy'n siŵr eich bod chi'n gwybod hynny'n barod.*

## Cyfranogwr D

**Oedran**: 68

**Bwrdd Iechyd:** Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

**36.** Mae cyfranogwr D yn byw yng Ngwynedd, ac yn nodi ei bod wedi cael anawsterau mawr wrth geisio cael mynediad at ddeintyddion yn yr ardal ers 10 mlynedd. Mae ei merch, sydd newydd symud yn ôl i'r ardal, hefyd yn cael trafferthion tebyg.

> *Byddwn i'n dweud mai fy marn i yw os oedd gennych chi ddeintydd ar y GIG 10 mlynedd yn ôl, a'ch bod chi wedi aros gyda nhw a'u bod nhw'n dal i weithio yno, nad yw pethau'n rhy ddrwg. Dwi'n teimlo'n reit anlwcus bod fy neintydd wedi gadael ac mae hynny wir wedi fy ngadael i heb ddeintydd am bron i ddegawd, ac mewn limbo erbyn hyn*
>
> *Arhosodd fy ngŵr gyda'i ddeintydd ac roedd yn iawn... tan 2018, pan adawodd yntau hefyd, gan adael y ddau ohonom heb ddeintydd!'*

**37.** Esboniodd cyfranogwr D sut roedd rhwystrau yn ei atal wrth geisio ymuno â phractis newydd. Yn 2019 bu'n siarad gyda sawl practis, gan nodi bod y

cyfathrebu yn aml yn wael, ac yn amlach na pheidio ni fyddai'n clywed unrhyw beth o gwbl ganddynt.

> *Aethon ni ar wefan i chwilio am ddeintyddion ar y GIG. Fe wnaethon ni roi ein henwau i lawr ar gyfer pedwar, ac fe gawson ni naill ai wybod dim byd neu wybod yn anuniongyrchol y byddai'n cymryd o leiaf ddwy flynedd - roedd hyn yn gynnar yn 2019 – a dim ond yn ddiweddar iawn, ar ôl swnian yn gyson, y clywsom ni unrhyw beth o'u hochr nhw. Mae'n rhaid i mi ddweud bod y cyfathrebu wedi bod yn ofnadwy*

**38.** Er bod Cyfranogwr D wedi mynd yn breifat yn y gorffennol, nid oedd yn senario yr oedd am fynd ar ei drywydd yn y dyfodol oherwydd y sefyllfa barhaus o ran costau byw a'r gred bod mynediad at ddeintyddion yn wasanaeth a ddylai fod ar gael yn rhwydd.

> *Mae'n debyg y gallwn i fforddio mynd yn breifat petawn i'n gorfod, ond wna i ddim fel mater o egwyddor. Mae deintyddiaeth yn teimlo fel angen sylfaenol, a'r ffaith yw fy mod i'n adnabod pobl yma na fyddai'n gallu ei fforddio*

**39.** Ar ôl disgwyl mor hir, roedd cyfranogwr D wedi llwyddo i weld deintydd yn ddiweddar iawn, ond canfuwyd bod problemau y gellid bod wedi eu cywiro amser maith yn ôl wedi gwaethygu.

> *Mae gen i broblemau gyda fy nannedd erbyn hyn. Cefais wybod fy mod i angen coron, a chefais un dros dro a barodd am wythnos. Mae gen i ddant wedi torri o hyd. Pan welais i'r deintydd cymerodd olwg sydyn a dweud wrthyf nad oedd am ei drwsio tan y byddai'n gwaethygu. Mae'n teimlo fel ffordd ryfedd o wneud pethau. Mae gwiriad bob chwe mis neu hyd yn oed unwaith y flwyddyn yn teimlo fel rhywbeth sy'n perthyn i'r gorffennol pell.*

**40.** Tra bod Cyfranogwr D wedi cael problemau gyda deintyddion yn yr ardal dros y degawd diwethaf, mae hi hefyd yn nodi sut mae ei merch, a symudodd i'r ardal yn ddiweddar, wedi methu â chael ei henw ar restr aros, hyd yn oed. Mae hyn yn golygu ei bod hi ar hyn o bryd yn dal wedi ei chofrestru gyda deintydd ger ei hen gartref, tua dwy awr o daith yn y car o'i chartref presennol.

> *Mae fy merch yn dal i fynd at ei deintydd yn Aberystwyth gan nad oes unrhyw ffordd y gall hi gael unrhyw beth yn nes na hynny ar hyn o bryd. Hyd yn oed yno mae ei thri apwyntiad olaf wedi cael eu canslo ar y funud olaf, ond mae hyd yn oed apwyntiad wedi ei ganslo yn teimlo fel eich bod chi yn y system, wyddoch chi.*
>
> *Mae pethau wedi cyrraedd y pwynt lle'r ydw i wedi cael fy nhemtio i roi fy enw i lawr ar gyfer practisau lle mae fy mab yn byw yng Nghaerdydd - mae'n sefyllfa chwerthinllyd.*

## Cyfranogwr E

**Oedran**: 45

**Bwrdd Iechyd:** Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**41.** Mae cyfranogwr E yn byw mewn rhan wledig o dde-orllewin Cymru. Dechreuodd ei phroblemau pan gollodd hi a'i theulu eu lle ar gofrestr deintyddion y GIG oherwydd bod eu practis yn cau.

**42.** Mae cael mynediad at wasanaethau deintyddol yn broblem sydd bellach yn effeithio arni hi, ei phartner, ei dau o blant a'i thad. Mae hi'n tynnu sylw at sut mae gwasanaethau wedi gwaethygu ers COVID a sut arweiniodd cau ei phractis lleol at broblemau mawr.

> *'Fe gawson ni lythyr oedd yn dweud bod ein practis yn cau – roedd yn rhoi dewisiadau i ni am dri practis arall ond maent mor bell i ffwrdd - mae un 40 milltir i ffwrdd! Nid yw'n hygyrch i fy nhad, er enghraifft – bu'n rhaid iddo fynd yn breifat, gan nad oes dewis arall'*
>
> *'Mae'r mater hwn yn bellgyrhaeddol i fy nheulu, mae'n effeithio ar fy mhlant, arnaf i fy hun ac ar fy nhad. Roedd y cyfnod cyn Covid yn amgylchedd gwahanol - roeddwn i'n gallu ffonio a byddwn i'n cael ymateb yn y pen draw. Mae'n bosib y byddai wedi bod yn chwe wythnos / wyth wythnos, ond byddech yn cael ymateb, o leiaf. Mae'n fater arall yn gyfan gwbl ers Covid.*

**43.** Mae'n nodi sut bydd yr anawsterau o ran cael archwiliadau iddi hi a'i phlant yn arwain yn y pen draw at gymhlethdodau pellach

*‘Nid yw fy mhlentyn wedi gweld unrhyw un ers amser maith – mae'n 15 oed yn awr ac nid yw wedi gweld yr un deintydd ers 5 mlynedd. Nid oedd neb yn fodlon ei weld gan nad oedd yn cael ei ystyried yn achos brys. Mae ei ddannedd yn gam, mae angen i rywun gael golwg arnynt neu bydd problemau yn siŵr o godi yn ddiweddarach*

*‘O’m rhain i, disgynnodd coron o’i lle dair blynedd yn ôl, ac nid ydynt yn fodlon fy ngweld innau chwaith. Yn awr, bydd hyn yn dod yn achos brys gan nad yw wedi cael ei drin. Mae hi wastad yn teimlo ei bod hi’n haws mewn argyfwng, mewn ffordd, oherwydd mae'n ymddangos ei bod hi’n haws cael apwyntiad yn rhywle mewn sefyllfa felly, o leiaf’*

**44.** Nododd cyfranogwr E nad ei dewis cyntaf oedd mynd yn breifat, ond ei bod yn ymddangos nad oedd gan ddeintyddion preifat yn lleol lawer o gapasiti, chwaith. Roedd hefyd yn hynod bryderus nad oedd gwasanaeth GIG ar gael yn yr ardal leol oherwydd achosion diweddar o gau practisau, a nododd mai'r unig ddewis mewn argyfwng oedd cysylltu ag 111.

*‘Rydyn ni'n deulu o bedwar ac nid ydw i eisiau mynd yn breifat mewn gwirionedd, ond rydyn ni wedi cael ein gadael heb ddewis arall. Mae'r ardal hon yn ardal dlawd - mae'n siŵr bod cannoedd os nad mwy heb gofrestru â deintydd. Faint o'r bobl hynny sy'n gallu fforddio mynd yn breifat... Os bydd y GIG yn cau'r ddeintyddfa ble mae'r gwasanaeth yn yr ardal hon? Ble mae hynny’n ein gadael ni?*

*‘Roedd gan fy nhad grawniad yn y pen draw - mae'n 78 oed a bu’n rhaid iddo ffonio sawl lle i geisio cael apwyntiad, dim ond i gael gwybod nad oedd modd iddo gael un gan nad oedd wedi cofrestru yn unman. Yn y diwedd, bu'n rhaid iddo ffonio 111 a chael triniaeth - mae pethau wedi mynd y tu hwnt erbyn hyn. Roedd o dan straen ofnadwy ac nid oedd yn braf gweld hynny.*

**45.** Fe wnaeth cyfranogwr E gymharu’r gwasanaeth a gafodd mewn sefyllfaoedd eraill ar gyfer ei phlant a'i phryder nad oedd y GIG yn gallu ymdopi â'r galw.

*' Rwy'n gweld y senario presennol yn y GIG yn frawychus. Cawsom broblem debyg gyda fy mab, a oedd angen llawdriniaeth ACL. Yn y diwedd bu'n rhaid i ni fynd yn breifat i'w ddatrys oherwydd rhestrau*

*aros enfawr a chyfathrebu ofnadwy. Nawr mae'r un peth yn union yn digwydd gyda deintyddion - mae'n teimlo fel bod popeth wedi torri'*